# Ysgol Gynradd Pentre'r Graig

## Disgrifiad Swydd - Athro/Athrawes

Mae Ysgol Gynradd Pentre'r Graig yn ysgol brysur, hapus, croesawgar a hollol gynhwysol a leolir yn Nhreforys, Abertawe. Rydym ni'n Ysgol sy'n Parchu Hawliau ac yn Ysgol Arfer Adferol, ac mae gennym ni dîm o staff a Chorff Llywodraethu ymroddgar iawn. Mae 310 disgybl ar y cofrestr, yn cynnwys 47 o blant yn mynychu meithrinfa yn rhan amser. Mae rhaglen adnewyddu helaeth gwerth £2.7 miliwn wedi'i chwblhau yn ddiweddar, i sicrhau fod adeilad a thir yr ysgol yn addas ar gyfer addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. Rydym ni'n falch o'n llwyddiannau hyd yn hyn ac rydym yn dymuno parhau i ychwanegu atynt a'u gwella yn ystod y blynyddoedd sy'n dod.

Mae'r Corff Llywodraethu yn dymuno penodi athro/athrawes dosbarth ysbrydolgar ac ymroddgar, i ymuno â thîm o staff gweithgar a gweithio'n gydweithredol i ychwanegu at lwyddiannau presennol niferus yr ysgol.

**Disgrifiad o swydd Athro/Athrawes Dosbarth (MPS)**

Mae'r apwyntiad yn unol ag amodau gwasanaeth presennol athrawon a gynhwysir yn y ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgolion, Deddf Addysg 1997, y safonau gofynnol ar gyfer Statws Athro Cymwysedig, deddfwriaeth addysg arall, ac erthyglau llywodraethu'r ysgol.
Gellir newid y disgrifiad swydd hwn unrhyw bryd yn dilyn trafodaeth rhwng y Pennaeth a'r aelod staff, a chaiff ei adolygu yn flynyddol.

**Meysydd cyfrifoldebau a thasgau allweddol: Cynllunio, Addysgu a Rheoli Dosbarthiadau:**
Addysgu disgyblion penodol trwy gynllunio eu haddysg er mwyn cyflawni dilyniant addysgol trwy:

- Nodi amcanion addysgu clir a nodi sut cânt eu haddysgu a'u hasesu;
- Pennu tasgu a fydd yn herio disgyblion ac yn sicrhau lefelau uchel o ddiddordeb ac sy'n ddifyr;
- Pennu disgwyliadau priodol a heriol;
- Pennu targedau clir, gan adeiladau ar gyflawniadau priodol;
- Nodi disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cynnwys y sawl sy'n Fwy Galluog a Thalentog a gwahaniaethu'n briodol;
- Sicrhau y cynllunnir ar gyfer disgyblion sy'n Siarad Saesneg fel Iaith Ychwanegol, fel bod ganddynt fynediad at y cwricwlwm a bob agwedd o fywyd yr ysgol;
- Darparu strwythurau clir ar gyfer gwersi gan sicrhau rhediad, cymhelliant a heriau
- Gwneud defnydd effeithiol o asesu a sicrhau y cyflawnir y cwricwlwm presennol.
- Monitro ac ymyrryd i sicrhau dysgu ac ymddygiad cadarn yn seiliedig ar egwyddorion a strategaethau Arferion Adferol.
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu er mwyn:
  - sicrhau fod y dull yn cyd-fynd â'r cynnwys, strwythuro gwybodaeth, cyflwyno set o syniadau allweddol a defnyddio geirfa briodol;
  - defnyddio cwestiynau effeithiol, gwrando'n ofalus ar ddisgyblion, rhoi sylw i wallau a chamsyniadau;
  - dethol adnoddau dysgu priodol a datblygu sgiliau astudio trwy gyfrwng y llyfrgell, TGCh ac adnoddau eraill;

**Defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu er mwyn:**

- sicrhau fod y dull yn cyd-fynd â'r cynnwys, strwythuro gwybodaeth, cyflwyno set o syniadau allweddol a defnyddio geirfa briodol;
- defnyddio cwestiynau effeithiol, gwrando'n ofalus ar ddisgyblion, rhoi sylw i wallau a chamsyniadau;
- dethol adnoddau dysgu priodol a datblygu sgiliau astudio trwy gyfrwng llythrennedd, rhifedd, cymhwysedd digidol a ffynonellau eraill;
- Sicrhau fod disgyblion yn datblygu ac yn cryfhau gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n briodol i'r pwnc a addysgir;
- Gwerthuso eu haddysgu eu hunain yn feirniadol er mwyn gwella effeithiolrwydd;
- Rheoli a chynorthwyo oedolion eraill yn y dosbarth;

**Monitro, Asesu, Cofnodi a Llunio Adroddiadau**

- Asesu pa mor dda mae amcanion a meini prawf wedi'u cyflawni a'u defnyddio i wella agweddau penodol o addysgu a dysgu;
- Monitro gwaith disgyblion a phennu targedau ar gyfer cynnydd gan ddefnyddio Polisi Asesu ac Adborth i Ddysgwyr yr ysgol yn effeithiol;
- Asesu a chofnodi cynnydd disgyblion yn systematig gan ddefnyddio yn unol â Pholisi Asesu'r ysgol; Cadw cofnodion i sicrhau fod gwaith yn cael ei ddeall a'i gwblhau, monitro cryfderau a gwendidau, llywio cynllunio ac adnabod ar ba lefel y mae'r disgybl yn cyflawni;
- Llunio a chyflwyno adroddiadau llawn gwybodaeth i rieni;

**Fel rhan o Waith Arweinydd Maes Dysgu a Phrofiad/Rhan o waith Tîm Maes Dysgu a Phrofiad**

Yn ychwanegol i gyfrifoldebau athro/athrawes dosbarth, meysydd cyfrifoldeb a thasgau allweddol:

- Arweiniad Strategol a Datblygu'r Pwnc – gyda chymorth y pennaeth a'r uwch dîm arwain ac yn unol â'u cyfarwyddiadau:
- Datblygu a gweithredu polisïau ac arferion sy'n adlewyrchu ymrwymiad yr ysgol i gyflawniad rhagorol trwy addysgu a dysgu effeithiol;
- Bod yn frwdfrydig am y pwnc mewn modd sy'n cymell a chefnogi staff eraill ac yn annog dealltwriaeth a rennir o'r cyfraniad y gall y pwnc ei wneud at bob agwedd o fywydau disgyblion;

- Defnyddio data perthnasol yr ysgol a data lleol a chenedlaethol perthnasol i lywio targedau ynghylch datblygu a gwelliannau ychwanegol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion
- Datblygu cynlluniau ar gyfer y pwnc sy'n nodi targedau, amserlenni a meini prawf llwyddiant clir er mwyn ei ddatblygu a/neu ei gynnal yn unol â chynllun datblygu'r ysgol;
- Monitro cynnydd a gwerthuso'r effeithiau ar addysgu a dysgu trwy gydweithio gyda chydweithwyr, dadansoddi gwaith a deilliannau;

**Addysgu a Dysgu**

- Sicrhau parhad a chynnydd yn y maes dysgu trwy gynorthwyo cydweithwyr i ddewis dilyniant dysgu a dulliau addysgu priodol a phennu amcanion dysgu clir trwy gynllun gwaith cytunedig, a ddatblygir yn unol â chynllun datblygu'r ysgol;
- Gwerthuso addysgu'r pwnc trwy fonitro cynlluniau, craffu ar waith disgyblion, siarad â dysgwyr, troeon dysgu, asesiadau athrawon ar INCERTS/meysydd dysgu a nodi arferion da, meysydd i'w datblygu i wella addysgu a dysgu a gwella safonau.
- Datblygu cysylltiadau effeithiol â'r gymuned leol, yn cynnwys rhieni, busnesau a diwydiant;

**Defnydd Effeithiol**

- Cynorthwyo'r pennaeth trwy gynnal, rheoli a threfnu adnoddau dysgu yn effeithiol, trwy ddatblygu neu nodi adnoddau newydd, yn cynnwys rhaglenni TGCh, sy'n briodol i'r pwnc;
- Cynorthwyo cydweithwyr i greu amgylcheddau dysgu ysgogol er mwyn addysgu a dysgu'r pwnc.

**Gofynion Proffesiynol Eraill**

- Meddu ar wybodaeth ymarferol o ddyletswyddau proffesiynol ac ymrwymiadau cyfreithiol athrawon;
- Cadw at y cod ymddygiad a bennwyd gan Gyngor y Gweithlu Addysg;
- Gweithredu yn unol â pholisïau ac arferion penodol yr Ysgol
- Sefydlu perthnasoedd gwaith effeithiol a bod yn enghraifft dda trwy ei olwg a'i ymddygiad personol a phroffesiynol;
- Ymdrechu i roi cyfle i bob plentyn gyflawni ei botensial a chyflawni disgwyliadau uchelgeisiol;
- Cyfrannu at fywyd yr ysgol trwy gyfranogi'n effeithiol yn y cyfarfodydd a'r systemau rheoli sy'n ofynnol er mwyn cydlynu'r gwaith o reoli'r ysgol;
- Bod yn gyfrifol am ei (d)datblygiad proffesiynol a'i (d)dyletswyddau ei hun mewn perthynas â pholisïau ac arferion yr ysgol;
- Trafod yn effeithiol â rhieni a llywodraethwyr;
- Ymgymryd ag unrhyw gyfrifoldebau ychwanegol y gellir eu pennu o bryd i'w gilydd;
- Bod yn ymwybodol o'r cyfrifoldebau'r a'r rôl o ran Amddiffyn Plant, Diogelu, Iechyd a Diogelwch a Diogelu Data o fewn bywyd beunyddiol yr ysgol.
- Cynorthwyo cydweithwyr i greu amgylcheddau dysgu ysgogol er mwyn addysgu a dysgu'r pwnc.
- Ymrwymo i sicrhau presenoldeb a phrydlondeb rhagorol.

# Manyleb yr Unigolyn – Athro/Athrawes

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | ▪ Statws Athro Cymwysedig<br>▪ Cofrestriad â Chyngor y Gweithlu Addysg<br>▪ Ymrwymiad i DPP parhaus | • DPP ychwanegol / rheolaidd |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | ▪ Meddu ar brofiad diweddar a pherthnasol o fewn ysgol gynradd<br>▪ Ymarferydd rhagorol yn y dosbarth.<br>▪ Dealltwriaeth o'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg<br>▪ Dealltwriaeth eglur o Gwricwlwm i Gymru 2022<br>▪ Dealltwriaeth eglur o gynnydd dysgwyr<br>▪ Gweithio mewn partneriaeth â rhieni a llywodraethwyr i hyrwyddo gweledigaeth ac amcanion yr ysgol. | ▪ Profiad sylweddol diweddar iawn mewn ysgolion cynradd, yn y Cyfnod Sylfaen neu'r Blynyddoedd Cynnar yn ddelfrydol<br>▪ Profiad o gefnogi grwpiau o ddysgwyr mewn ysgolion<br>▪ Gallu i arddangos cyfraniad at faterion ehangach ysgol<br>▪ Profiad o gynllunio er mwyn datblygu a gwella ysgol.<br>▪ Dealltwriaeth o Hawliau'r Plentyn a phrofiad o gefnogi hynny |
| **Sgiliau** | ▪ Gallu creu amgylchedd dysgu hapus, heriol ac effeithiol<br>▪ Hyblygrwydd wrth weithio fel rhan o dîm.<br>▪ Sgiliau rhyngbersonol da.<br>▪ Sgiliau trefnu da.<br>▪ Sgiliau cyfathrebu da.<br>▪<br>▪ Defnydd da o'r Gymraeg<br>▪ Y gallu i gydweithio'n dda â rhieni, gofalwyr ac asiantaethau eraill.<br>▪ Cefnogi ac annog llythrennedd emosiynol a chorfforol yn y dosbarth<br>▪ Ymrwymo i ddatblygu eich sgiliau, eich gwybodaeth a'ch galluoedd proffesiynol<br>▪ Gallu derbyn cyngor proffesiynol a gweithredu mewn ymateb i hynny | ▪ Hyderus a chymwys yn y Gymraeg (neu ymrwymiad amlwg i ddatblygu sgiliau personol)<br>▪ Gallu cynorthwyo i arwain mentrau ar lefel ysgol gyfan a thystiolaeth o hynny. |
| **Nodweddion Personol** | ▪ Disgwyliadau uchel ohonynt hwy eu hunain ac eraill<br>▪ Ymroddgar.<br>▪ Hyblyg.<br>▪ Brwdfrydig<br>▪ Agos-atoch<br>▪ Aelod da o dimau<br>▪ Synnwyr digrifwch<br>▪<br>▪ Commitment to good attendance | |